

MORGAN, DAVID (1814 - 1883), diwygiwr crefyddol



Enw: David Morgan
Dyddiad geni: 1814
Dyddiad marw: 1883
Priod: Jane Morgan (née Evans)
Plentyn: John James Morgan
Rhiant: Catherine Morgans
Rhiant: Dafydd Morgans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: diwygiwr crefyddol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gildas Tibbott

Ganwyd yn 1814 ym Melin Fodcoll, rhwng Pontarfynach a Chwmystwyth, Sir Aberteifi, y trydydd o naw plentyn Dafydd Morgans, melinydd a saer, a Catherine ei wraig. Symudodd y teulu deirgwaith cyn ymsefydlu ym Melin y Lefel (a adeiladwyd gan ei dad) yn ardal Ysbyty Ystwyth, ac yno y bu'n byw hyd ei briodas. Dysgodd grefft saer yng ngweithdy ei dad. Dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid Calfaidd yn 1842 ac ordeiniwyd ef yng nghymdeithasfa Trefin ar 20 Mai 1857. Yn y flwyddyn ganlynol daeth i gysylltiad â **Humphrey R. Jones**, a oedd newydd ddychwelyd o Unol Daleithiau'r America yn ddwfn o dan ddylanwad diwygiad crefyddol yno, ac a enynasai eisoes fflam diwygiad yng ngogledd Aberteifi. Ymunodd Morgan ag ef, a than ddylanwad y ddau efengylwr ar y dechrau, a Morgan ei hunan ar ôl hynny, wedi i iechyd corff a meddwl **Jones** dorri i lawr, ymledodd 'Diwygiad '59,' fel y'i gelwir, trwy Gymru oll a thu hwnt. Yn ystod 1859-60 teithiodd David Morgan trwy bob rhan o Gymru, gan gynnal yn fynych dair neu bedair oedfa mewn diwrnod. Wedi i wres y diwygiad oeri dychwelodd at ei ddyletswyddau gweinidogaethol yn Ysbyty, ac ym Mawrth 1868 galwyd ef yn ffrifol i fugeilio'r eglwys yno, sef Capel Maes-glas y Methodistiaid Calfaidd. Rhoes yr un gwasanaeth hefyd i gapel Methodistiaidd Swyddffynnon.

Yn 1865 priododd Jane, ferch ieuengaf y Parch. Evan Evans, Aberffwd, a symud i Glynberws, lle y treuliodd weddill ei oes. Bu iddynt saith o blant. Bu farw 27 Hydref a'i gladdu yn Ysbyty Ystwyth.

Awdur

Gildas Tibbott, (1900 - 1979)

Ffynonellau

J. J. Morgan, *Hanes Dafydd Morgan Ysbyty a Diwygiad 59* (Yr Wyddgrug 1906)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 48407407

Wikidata: Q20732871

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Tibbott, G., (1953). MORGAN, DAVID (1814 - 1883), diwygiwr crefyddol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MORG-DAV-1814>

Diwygiwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodi gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government